person sy'n gwneud y cais o benderfyniad y Tribiwnlys ar yr apêl o dan adran 95. Mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os yw wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i wneud cais am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ac, os oes oedi wedi bod cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol, dros yr oedi hwnnw).

### *Adran 98* - *Dyletswydd y Comisiynydd ar apêl*

189. Mewn amgylchiadau pan yw'r Comisiynydd wedi ymchwilio i fethiant honedig gan D i gydymffurfio â safon yn dilyn cwyn a wnaed gan berson o dan adran 93 a phan wneir apêl o dan adran 95 neu 97, neu unrhyw apêl bellach, mewn perthynas â'r ymchwiliad a phan nad yw P yn barti yn yr achos hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â'r gofynion a geir yn is-adran (2).

190. Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael gwybod, hysbysu'r person sydd wedi gwneud y g#yn ynghylch:

- canlyniad apêl o dan adran 95;
- y ffaith bod apêl o dan adran 97 (neu unrhyw apêl bellach ) wedi'i gwneud; a
- canlyniad apêl o dan adran 97 (neu unrhyw apêl bellach).

### *Adran 99* - *Hawl P i apelio*

191. Mae'r adran hon yn darparu hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd, yn dilyn ymchwiliad, na fu methiant i gydymffurfio â safon. Dim ond person ("P") gaiff wneud yr apêl honno, a hynny mewn amgylchiadau pan fo'i g#yn i'r Comisiynydd o dan adran 93 ynghylch methiant honedig gan berson ("D") i gydymffurfio â safon, wedi arwain at ymchwiliad a'r dyfarniad dilynol na fu methiant i gydymffurfio.

192. Caiff P apelio ar y sail bod D wedi methu â chydymffurfio â safon. Rhaid gwneud apelau o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi i P yr hysbysiad penderfynu mewn perthynas â gofynion adran 73. Caiff y Tribiwnlys dderbyn apelau ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau os yw P yn gwneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys a bod y Tribiwnlys wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes oedi wedi bod) cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol.

### *Adran 100* - *Pwerau'r Tribiwnlys pan wneir apêl gan P*

193. Mae'r adran hon yn darparu y gall y Tribiwnlys, os daw apêl o dan adran 99 i law, naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys gyfarwyddo'r Comisiynydd i benderfynu o dan adran 73 fod D wedi methu â chydymffurfio â'r safon.

### *Adran 101* - *Apelau o'r Tribiwnlys*

194. Mae'r adran hon yn darparu ffordd i'r Comisiynydd, i P neu, mewn achosion pan fo D wedi gwneud cais llwyddiannus i gael ei ychwanegu'n barti mewn achos, i D, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad y Tribiwnlys yn dilyn apêl gan P.

195. Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys roi penderfyniad y Tribiwnlys o'r neilltu. Os rhoddir yr achos o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.

201. I wneud cais, rhaid i P gael caniatâd y Tribiwnlys. Rhaid rhoi caniatâd pan fo'r Tribiwnlys o'r farn ei bod yn rhesymol disgwyl i'r cais fod yn llwyddiannus neu pan fo rhyw reswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed.

202. Rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin â chais am adolygiad fel pe bai'n gais am adolygiad barnwrol a wnaed i'r Uchel Lys. Fodd bynnag, os gwneir cais am adolygiad, gall y Tribiwnlys, o dan adran 104, naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd.

203. Rhaid gwneud ceisiadau am adolygiad o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau'n dechrau ar y diwrnod y mae'r Comisiynydd yn rhoi i P hysbysiad o'i benderfyniad o dan adran 94. Caiff y Tribiwnlys dderbyn ceisiadau ar ôl y cyfnod o 28 o ddiwrnodau os yw P yn gwneud cais ysgrifenedig ac os yw'r Tribiwnlys wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw, a thros yr oedi (os oes oedi wedi bod) cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol.

### *Adran 104 - Pwerau'r Tribiwnlys ar adolygiad*

204. Os gwneir cais am adolygiad, mae'r adran hon yn darparu y gall y Tribiwnlys naill ai cadarnhau neu ddiddymu dyfarniad y Comisiynydd. Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu dyfarniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys anfon yr achos yn ôl i'r Comisiynydd gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.

### *Adran 105 - Apelau o'r Tribiwnlys*

205. Mae'r adran hon yn darparu ffordd i'r Comisiynydd neu i P apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o adolygiad y Tribiwnlys o benderfyniad a wnaed gan y Comisiynydd, sy'n benderfyniad sy'n dod o fewn un o'r pum achos y gellir eu hadolygu o dan adran 103.

206. Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol, caiff yr Uchel Lys roi o'r neilltu benderfyniad y Tribiwnlys. Os rhoddir yr achos o'r neilltu, rhaid i'r Uchel Lys naill ai ail-wneud y penderfyniad neu anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys gyda chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â'i ailystyried.

207. Mae is-adrannau (4) a (5) yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfarwyddiadau y caiff yr Uchel Lys eu rhoi i'r Tribiwnlys ac ynghylch pwerau'r Uchel Lys pan fydd yn ail-wneud penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.

208. Rhaid gwneud cais i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys am ganiatâd i apelio, a hynny o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y person sy'n gwneud y cais o'i benderfyniad ar yr apêl o dan adran 103. Mae gan y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys y disgresiwn i ganiatáu i apelau gael eu gwneud ar ôl y cyfnod hwnnw os yw wedi'i fodloni bod rheswm da dros y methiant i geisio am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ac, os oes oedi wedi bod cyn ceisio am ganiatâd i apelio ar ôl y cyfnod priodol, dros yr oedi hwnnw.

### *Adran 106 - Hawl i wneud cais i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos*

209. Mae'r adran hon yn gymwys mewn dau achos.

210. Yr achos cyntaf yw:

- pan fo D yn gwneud apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95(2) yn erbyn dyfarniad gan y Comisiynydd fod D wedi methu â chydymffurfio â safon; a
- pan wnaed y dyfarniad hwnnw ar ôl ymchwiliad yn dilyn cwyn ynghylch ymddygiad D o dan adran 93.

211. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r person ("P") a wnaeth y g#yn o dan adran 93 fod D wedi gwneud yr apêl a chaiff P wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos. Os ychwanegir P yn barti, rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu

### *Atodlen 12 - Diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg: darpariaeth arall*

421. Mae'r Atodlen hon yn cael ei chyflwyno gan adran 146 o'r Mesur.

### *Paragraff 1 - Staff y Bwrdd*

422. Mae gan Weinidogion Cymru y p#er i wneud gorchymyn yn trosglwyddo staff y Bwrdd naill ai i'r Comisiynydd neu i Lywodraeth Cynulliad Cymru. At ddibenion paragraff 1, yn is-baragraff (9) defnyddir y term "trosglwyddai" i gyfeirio at y cyflogwr y bydd neu y byddai'r aelod o staff y Bwrdd yn cael ei drosglwyddo i'w gyflogi ganddo.

423. Pan drosglwyddir staff gan orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (1), mae is-baragraffau (2) i (9) yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith y trosglwyddo ar gontractau cyflogaeth staff sy'n trosglwyddo.

424. Ni fydd contractau cyflogaeth staff sy'n trosglwyddo i'r trosglwyddai o ganlyniad i orchymyn a wnaed yn unol â'r paragraff hwn yn cael eu terfynu gan y trosglwyddo a byddant yn effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo fel pe byddent wedi'u gwneud yn wreiddiol rhwng yr aelod staff a drosglwyddwyd a'r trosglwyddai. Bydd holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Bwrdd mewn perthynas â chontract cyflogaeth yr aelod staff a drosglwyddwyd yn trosglwyddo i'r trosglwyddai ar ddyddiad y trosglwyddo. Yn yr un modd, bydd unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad trosglwyddo gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef, mewn cysylltiad â'r aelod staff a drosglwyddwyd neu â'i gontract cyflogaeth, yn cael ei drin o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen fel pe bai wedi'i wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

425. O ran person sy'n trosglwyddo, bydd ei gyfnod cyflogaeth fel aelod o staff y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cyfrif fel cyfnod cyflogaeth fel aelod o staff y trosglwyddai. At hyn, at ddibenion adran 218(3) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, o ran y person sy'n trosglwyddo, bydd ei gyfnod cyflogaeth fel aelod o staff y Bwrdd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei drin fel cyflogaeth barhaus fel aelod o staff y trosglwyddai.

426. Ni throsglwyddir contract cyflogaeth aelod o staff y Bwrdd o dan y paragraff hwn os bydd y cyflogai'n gwrthwynebu'r trosglwyddo. Bydd contract cyflogaeth yr aelod staff hwnnw yn cael ei derfynu yn union cyn y dyddiad y byddai trosglwyddo i'r trosglwyddai'n digwydd ond ni chaiff y cyflogai y terfynir ei gontract ei drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi'i ddiswyddo gan y Bwrdd.

### *Paragraff 2 - Eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd*

427. Mae gan Weinidogion Cymru b#er i wneud gorchymyn ynghylch eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys p#er i drosglwyddo'r eiddo, yr hawliau a'r rhwymedigaethau i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru. Mae diffiniadau o "eiddo", a "hawliau a rhwymedigaethau" yn cael eu darparu hefyd.

### *Paragraff 3 - Addasu Deddf 1993 mewn perthynas â swyddogaethau a drosglwyddir i Weinidogion Cymru*

428. Mewn amgylchiadau pan drosglwyddir swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") i Weinidogion Cymru (gweler adran 143(3)), mae'r paragraff hwn yn darparu rhestr o'r darpariaethau hynny yn Neddf 1993 nad ydynt yn gymwys i'r swyddogaethau hynny a drosglwyddwyd fel y mae'r swyddogaethau'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

### *Paragraff 4 - Cyfeiriadau at y Bwrdd*

429. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer dehongli cyfeiriadau at y Bwrdd a geir yn Neddf 1993 o ganlyniad i ddiddymu'r Bwrdd o dan y Mesur. Dylid dehongli cyfeiriadau, yn Neddf 1993, at y Bwrdd, sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddir i'r Comisiynydd o ganlyniad i'r paragraff hwn, fel pe baent

yn gyfeiriad, neu fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad, at y Comisiynydd. Yn yr un modd, dylid dehongli cyfeiriadau, yn Neddf 1993, at y Bwrdd, sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd sydd wedi'i throsglwyddo i Weinidogion Cymru, fel pe baent yn gyfeiriad, neu fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad, at Weinidogion Cymru.

### *Paragraff 5 - Parhad achosion cyfreithiol, dilysrwydd gweithredoedd etc*

430. Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch parhad unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol), sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddir o dan y Mesur hwn i'r Comisiynydd neu i Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "y trosglwyddai"), ac a oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd, neu mewn perthynas â'r Bwrdd, yn union cyn yr adeg y trosglwyddwyd y swyddogaeth. O ran swyddogaethau o'r math a drosglwyddwyd, caniateir parhau ag unrhyw beth oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd, neu mewn perthynas ag ef, yn union cyn y trosglwyddo gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

431. Gwneir darpariaeth debyg o ran unrhyw offerynnau, contractau neu achosion cyfreithiol sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau'r Bwrdd a drosglwyddir i'r trosglwyddai o dan y Mesur hwn. Mewn unrhyw offerynnau, contractau neu achosion cyfreithiol o'r math sydd wedi'u gwneud neu eu cychwyn cyn adeg trosglwyddo un o swyddogaethau'r Bwrdd, rhoddir y trosglwyddai yn lle'r Bwrdd.

432. At hyn, mae unrhyw beth a wnaed gan y Bwrdd neu mewn perthynas ag ef at ddibenion swyddogaeth a drosglwyddwyd oddi wrth y Bwrdd i'r trosglwyddai neu mewn cysylltiad â hi, o dan y Mesur hwn, ac sy'n effeithiol yn union cyn trosglwyddo'r swyddogaeth, yn effeithiol ar ôl y trosglwyddo fel pe bai wedi'i wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

433. Mae paragraff 5 hefyd yn ymdrin â pharhad unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sy'n ymwneud ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r Bwrdd a drosglwyddwyd i'r trosglwyddai o dan y Mesur hwn. Caniateir i unrhyw beth sy'n ymwneud ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r fath yn union cyn eu trosglwyddo, ac sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd, neu mewn perthynas ag ef, gael ei barhau gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

434. At hyn, mae unrhyw beth a wnaed gan y Bwrdd, neu mewn perthynas ag ef, at ddibenion eiddo, hawliau a rhwymedigaethau a drosglwyddwyd i'r trosglwyddai neu mewn cysylltiad â hwy, o dan y Mesur hwn, ac sy'n effeithiol yn union cyn trosglwyddo'r eiddo, hawliau neu rwymedigaethau, yn effeithiol ar ôl y trosglwyddo fel pe bai wedi'i wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas ag ef.

435. Os trosglwyddir eiddo, hawliau neu rwymedigaethau'r Bwrdd i'r trosglwyddai, mewn unrhyw offerynnau, contractau neu achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddwyd, ac sydd wedi'u gwneud neu eu cychwyn cyn y trosglwyddo, rhoddir y trosglwyddai yn lle'r Bwrdd.

436. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau yn y paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau o dan gontractau cyflogaeth staff y Bwrdd.

### *Paragraff 6 - Dehongli*

437. Mae'r paragraff hwn yn diffinio "Deddf 1993" ac "y Bwrdd" at ddibenion yr Atodlen hon.